

CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd) Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Robert G Parry, OBE, FRAGS, Dylan Rees
WRTH LAW:	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Swyddog Pwyllgor (SC)
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorydd Dafydd Roberts

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel cofnod cywir:-

- 16 Mawrth 2021
- 18 Mai 2021

3 DATGANIAD AMRYWIAETH

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi bod yn rhoi sylw i amrywiaeth mewn llywodraeth leol ac wedi cytuno i annog pob Cyngor i fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth fel rhan o'r ymrwymiad gan awdurdodau lleol i hyrwyddo amrywiaeth, cyn etholiadau 2022.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod gweithgor wedi'i sefydlu er mwyn casglu tystiolaeth am dangynrychiolaeth o fewn democratiaeth. Cyflwynodd y grŵp ei ganfyddiadau i CLILC yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2021. Roedd yr adroddiad yn cydnabod fod pobl o wahanol gefndiroedd yn cael eu hannog i sefyll ac mae ymgyrch cenedlaethol wedi'i gynllunio er mwyn hyrwyddo hyn.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y Cyngor yn cefnogi'r Datganiad Amrywiaeth, sy'n gyson â nodau strategol yr Awdurdod i adlewyrchu'r gymuned leol. Nodwyd fod y Cyngor yn gobeithio cynyddu nifer y merched, pobl ifanc, pobl anabl a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n sefyll yn yr etholiad.

Yn dilyn cyfarfod Cyngor y CLILC ym mis Mawrth eleni, gofynnir i Gyngorau Lleol fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth a pharatoi cynllun gweithredu.

Nododd y Pwyllgor nad yw'r lwfansau a delir i Aelodau Etholedig yn ddigonol er mwyn annog pobl ifanc a'r rhai hynny sydd o oed gwaith i sefyll yn yr etholiad. Bu Aelodau hefyd bwysleisio pwysigrwydd annog pobl o wahanol oedrannau, cefndiroedd a lefelau profiad i sefyll yn yr etholiad.

Gofynnodd Aelod am i'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod heddiw, mewn perthynas â lwfansau Aelodau, i gael eu crybwyll pan fydd y mater yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn. Nodwyd y bydd cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cefnogi'r Datganiad.

PENDERFYNWYD:-

- **Argymhell bod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r Datganiad Amrywiaeth drafft yn ei gyfarfod mis Medi, a**
- **Dirprwyo hawl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gytuno cynllun gweithredu i gefnogi'r datganiad yn ei gyfarfod nesaf.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.15 o'r gloch yp

**Y CYNGHORYDD ROBERT LL JONES
CADEIRYDD**